# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
# 27 IONAWR 2017

**YN BRESENNOL: A. Lloyd Jones (Cadeirydd);**

**<u>Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin</u>:-**

**Y Cynghorwyr W.G. Hopkins ac W.J.W. Evans**

**<u>Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion</u>**

**Y Cynghorwyr J.D. Rowland Jones a T.H. Lewis;**

**<u>Aelodau o Gyngor Sir Penfro</u>**

**Y Cynghorwyr R. Summons, T. Wilcox ac S. Yelland;**

**<u>Aelodau o Gyngor Sir Powys</u>**

**Y Cynghorwyr D.O. Evans, G. Jones a P. Medlicott;**

**<u>Aelodau Annibynnol</u>**

**Yr Athro I. Roffe a Mrs. H.M. Thomas;**

**<u>Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu</u>**

**Mr. D. Llywelyn – Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;**

**Mrs. C. Morgans – Pennaeth y Staff;**

**Ms. J. Woods – Prif Swyddog Cyllid**

**Roedd y swyddogion canlynol hefyd yn bresennol: -**

**<u>Cyngor Sir Caerfyrddin:-</u>**

**Mr R. Edgecombe – Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol;**

**Ms. L. Morris – Uwch-swyddog y Wasg;**

**Mrs J. Owen - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.**

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin 10.30 a.m. – 1.00 p.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU A MATERION ERAILL

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau am absenoldeb ond nodwyd nad oedd y Cynghorydd P. Jones yn bresennol.

## 2. PENODI CADEIRYDD Y PANEL

Talodd yr aelodau deyrnged i'r gadeiryddiaeth ragorol a ddarparwyd gan Mr. Edwards yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu am ategu'r sylwadau hyn. Gofynnodd y Panel am i lythyr gael ei anfon at Mr. Edwards i nodi gwerthfawrogiad y Panel.

[Gadawodd y Cynghorydd A. Lloyd-Jones y cyfarfod]

Cynigiwyd penodi'r Cynghorydd A Lloyd-Jones yn Gadeirydd y Panel ac eiliwyd hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Alun Lloyd-Jones yn Gadeirydd y Panel.**

[Ailymunodd y Cynghorydd A. Lloyd-Jones â'r cyfarfod]

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd. Cynigiwyd penodi'r Athro I. Roffe yn Is-gadeirydd y Panel, ac eiliwyd hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Athro I. Roffe yn Is-gadeirydd y Panel.**

## 3. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 4. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 21 HYDREF 2016 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2016 gan eu bod yn gywir.**

## 5. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION

Cyfeiriwyd at gofnod 9, sef Grant y Swyddfa Gartref ar gyfer Gweithgareddau'r Panel. Dywedodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Panel fod y grant, ar y cyfan, yn ddigon i'r Panel gyflawni ei swyddogaeth ond bod yr Aelodau'n gallu hawlio dim ond am nifer cyfyngedig o gyfarfodydd Panel ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai'r eitem yn cael ei hychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth y Panel y byddai'n croesawu unrhyw newidiadau o ran swyddogaeth y Panel ac y byddai'n awyddus i ddefnyddio'r Panel at ddibenion craffu.

## 6. PRAESEPT YR HEDDLU

Cyflwynodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei adroddiad i'r Panel ynghylch y praesept/cyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18. Y prif nod oedd diogelu plismona rheng flaen, lleihau troseddau a chadw'r gymuned yn ddiogel. Wrth bennu'r praesept dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi ymgynghori â'r cyhoedd ac wedi trafod yn fanwl gynlluniau'r Prif Gwnstabl ar gyfer lefelau staffio, gwasanaethau'r heddlu ac anghenion buddsoddi yn y dyfodol wrth gytuno ar gyllideb yr Heddlu ar gyfer 2017/18.

Dywedodd y Comisiynydd fod elfennau craidd y gyllideb wedi arwain at ei argymhelliad ynghylch cyfanswm cynnydd o 3.5% o ran praesept 2017/18. Petai hyn yn cael ei dderbyn gan y Panel, byddai'n arwain at braesept yr heddlu o £47.303 miliwn a fyddai, yn sgil ei gyfuno â chyllid canolog a lleol, yn rhoi cyfanswm cyllideb o £96.616 miliwn, lle y byddai eiddo treth gyngor Band D ar gyfartaledd yn talu £213.87, sef 6.9% yn uwch na lefel 2016/17.

Dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi gweithredu'n ddoeth er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd a oedd yn parhau mewn perthynas â setliadau ariannol ar gyfer plismona yn ardal Dyfed-Powys yn y dyfodol, ac wrth wneud hynny, fod y cynllun ariannol tymor canolig yn dangos colled o £5 miliwn o gyllid canolog yn ystod 2018/19 a 2019/20.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cronfeydd wrth gefn, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod y gronfa gyffredinol wrth gefn yn gyfanswm o £4.500 miliwn ar hyn o bryd a oedd yn cyfateb i 4.7% o gyllideb refeniw net 2017 ac felly ei bod o fewn y terfynau a bennwyd ym mholisi cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Cyfeiriwyd at y staff ychwanegol sy'n cyfateb i £500k. Dywedwyd bod £500k yn ymddangos yn fuddsoddiad mawr a gofynnwyd a oedd angen gwario'r swm hwnnw ar staff cefn swyddfa. Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel ei bod yn amlwg, yn dilyn y rhaglen uchelgeisiol i leihau nifer y staff cefn swyddfa, a arweiniodd at ostyngiad sylweddol yn nifer y staff, nad oedd y gostyngiadau hynny'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Yn dilyn ymholiad ychwanegol, dywedodd y Comisiynydd fod staff cefn swyddfa ychwanegol yn cynnwys cymorth a goruchwyliaeth gorfforaethol, cymorth cofnodi troseddau a thrwyddedu arfau tanio.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Comisiynydd fod trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyfraniad o 16%, a oedd yn cael ei roi i'r Heddlu ar hyn o bryd.

Gofynnwyd a oedd y Swyddfa Gartref wedi bod yn ymgynghori'n ddigonol ynghylch ei fformiwla cyllido. Dywedodd y Comisiynydd fod gan y Gweinidog dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân agwedd gadarnhaol o ran ymgynghori a'i fod yn cymryd rhan weithredol mewn ymgysylltu. Yn ogystal, roedd pryder y gallai Heddlu Dyfed-Powys golli swm sylweddol o gyllid canolog a deallwyd bod y Gweinidog dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân am i'r fformiwla newydd gael ei rhoi ar waith yn 2018/19 gan sicrhau bod y cyfnod pontio mor fyr â phosibl. Byddai angen ymgynghori'n gadarn drwy gydol mis Gorffennaf a mis Awst 2017.

Cyfeiriwyd at y Gronfa Drawsnewid lle nodwyd ei bod yn bwysig ymgysylltu â'r heddluoedd eraill. Mewn ymateb, dywedodd y Comisiynydd fod y Gweinidog a'r Ysgrifennydd Cartref wedi bod yn cydgysylltu'n ddiweddar ynghylch manteision gwasanaethau trawsnewid a chydweithio sydd, yn eu tro, wedi arwain at dwf yng ngwerth Cronfeydd Trawsnewid. Yn ogystal, cadarnhaodd y Comisiynydd y byddent yn ymgysylltu â Heddluoedd dros y ffin ac asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod yr Heddlu yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfleoedd.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch seiberdroseddu, dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel fod seiberdroseddu'n parhau i fod yn her sylweddol i'r holl heddluoedd a bod Heddlu Dyfed-Powys ar flaen y gad yn y maes gwaith hwn. Er mwyn cael gwybod yn gyson am y newidiadau mewn technoleg a'r defnydd cynyddol o ddyfeisiau digidol cysylltiedig â seibr, roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflwyno Uned Seiberdroseddu bwrpasol ac roedd am fuddsoddi £300k mewn sgiliau ychwanegol yn ymwneud â dadansoddi, hyfforddiant ac archwilio.

Roedd pryderon bod cynnydd o 6.9% yn ormod ac yn sylweddol uwch na'r costau chwyddiant a ragwelwyd. Dywedodd y Comisiynydd fod data cymharol yn dangos toriadau o 20% mewn plismona flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn ogystal, roedd y cynnydd o 6.9% yn deillio o benderfyniad y Comisiynydd blaenorol i leihau praesept y Dreth Gyngor 5% ar gyfer 2015/16 ac i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu elfen o'r cyllidebau refeniw ar gyfer 2015/16 - 2018/19.

Mewn ymateb i ymholiad arall, dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel mai Heddlu Dyfed-Powys, hyd yn oed wrth ystyried y cynnydd o 6.9%, oedd yr heddlu rhatach yng Nghymru o hyd.

Cyfeiriwyd at gynlluniau'r Comisiynydd i gyflwyno teledu cylch cyfyng. Dywedodd y Comisiynydd ei fod yn bwriadu ailfuddsoddi mewn isadeiledd teledu cylch cyfyng priodol a fyddai'n rhoi ymateb effeithiol, cydgysylltiedig ac amserol i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ychwanegodd y Comisiynydd y byddai ganddo ragor o wybodaeth am gynnydd y mater hwn yn ddiweddarach yn y mis.

Rhoddodd y Comisiynydd sicrwydd i'r Panel nad oedd ei gynlluniau a'i benderfyniadau'n deillio o safbwynt gwleidyddol ac ychwanegodd y byddai'n fodlon amddiffyn unrhyw benderfyniad a wneir drwy'r wasg. Ar yr adeg hon, dywedodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei lunio a'i gyhoeddi yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**

**6.1. cymeradwyo cynnig y Comisiynydd i gynyddu praesept Heddlu Dyfed-Powys 6.9% ar gyfer 2017/18.**

**6.2. cyhoeddi datganiad priodol i'r wasg ar ran y Panel Heddlu a Throseddu.**

[Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys rhif 15.4, roedd y Cynghorwyr D. O. Evans, G. Jones a P. Medlicott am gofnodi eu pleidlais yn erbyn y cynnig i gynyddu'r praesept 6.9% ar gyfer 2017/18.]

Ar yr adeg hon, gofynnodd y Cadeirydd am gael 5 munud o egwyl, 12:05pm.
Ailymgynullodd aelodau'r Panel am 12.10pm.

## 7. Y CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU

Dosbarthodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu adroddiad ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud i lywio ei Gynllun Heddlu a Throseddu, yr oedd yn ofynnol iddo ei gyflwyno o dan Adran 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Roedd yr adroddiad yn nodi, at ystyriaeth y Panel, y pedwar maes blaenoriaeth ac egwyddorion cyflawni allweddol ar gyfer plismona a throseddu yn y cyfnod 2017-21. Roedd y Cynllun hefyd yn adlewyrchu'r prif gyfleoedd, risgiau a heriau o ran plismona yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Tynnodd y Comisiynydd sylw'r Panel at yr adran yr oedd wedi'i chynnwys ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a'r Panel Heddlu a Throseddu.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

Cyfeiriwyd at yr adran ynghylch Rolau a Chyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu lle awgrymwyd cynnwys pwynt bwled ychwanegol i ddisgrifio sut mae gwaith y Comisiynydd yn cysylltu â'r Panel Heddlu a Throseddu. Cytunodd y Comisiynydd i gynnwys yr awgrym yn y Cynllun.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch rhaglen ystadau Heddlu Dyfed-Powys. Eglurodd y Comisiynydd y byddai Dalfa Sir Gaerfyrddin yn cael ei defnyddio'n adnodd i'r sir i gyd. Mewn ymateb i ymholiad pellach, dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn cael eu dosbarthu'n briodol ar draws ardal Dyfed-Powys.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch diogelu pobl agored i niwed, dywedodd y Comisiynydd fod Byrddau Diogelu yn sicrhau bod cysylltiadau cryf â'r GIG. Yn ogystal, gan fod diogelu pobl agored i niwed yn faes cymhleth, roedd yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r sefydliadau partner drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddiogelu plant a phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion agored i niwed, gan ganolbwyntio ar fentrau atal ac ymyrraeth gynnar.

Awgrymwyd y dylai'r blaenoriaethau a'r prif amcanion fod yn rhan o'r datganiad i'r wasg. Cadarnhaodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys 2017-21 yn cael ei gynnwys yn y datganiad i'r wasg. Yn ogystal, awgrymwyd y dylai unrhyw sylwadau ynghylch y Cynllun gael eu hanfon ymlaen at Reolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol erbyn 10 Chwefror 2017 fan bellaf, a fyddai wedyn yn eu coladu a'u hanfon ymlaen at y Comisiynydd yn unol â hynny. Cytunodd y Panel â hyn.

Dywedwyd yr hoffai'r Panel i'r Prif Gwnstabl a swyddogion eraill fynychu'r cyfarfod ynghyd â'r Comisiynydd. Cytunodd y Comisiynydd y byddai hyn yn gam cadarnhaol ac y byddai'r Prif Gwnstabl yn cael ei wahodd i ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

**7.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn,**

**7.2 bod aelodau'r Panel yn cyflwyno eu sylwadau ynghylch Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-21 i Reolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol erbyn 10 Chwefror 2017.**

## 8. PENDERFYNIADAU'R COMISIYNYDD

Er gwybodaeth, cafodd y Panel adroddiad a fanylai ar y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystod y cyfnod 14 Hydref 2016 - 18 Ionawr 2017.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. UNRHYW EITEMAU ERAILL Y GALL Y CADEIRYDD, OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU Y DYLID EU HYSTYRIED YN FATERION BRYS**

Dywedodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Panel fod y Comisiynydd wedi gwahodd aelod o'r Panel i fod yn aelod o'i Fwrdd Ymchwil. Petai'r Panel yn cytuno, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y canlynol:-

1. Ar hyn o bryd caiff Aelodau'r Panel hawlio am 5 niwrnod y flwyddyn yn unig.
2. Dylai Aelodau wneud cais am ollyngiad gan Bwyllgor Safonau eu Cyngor perthnasol.
3. Gallai Aelodau'r Panel ei chael yn anodd craffu tra eu bod yn aelod o'r bwrdd ymchwil.

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel y byddai'r Bwrdd Ymchwil yn cynnwys amrywiaeth eang o unigolion â gwahanol arbenigedd a phrofiad o'r tu allan i'r Heddlu er mwyn manteisio i'r eithaf ar gynlluniau gan ddefnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth.

Y farn gyffredinol oedd y byddai'r Panel yn elwa o'r Bwrdd Ymchwil.

Cynigiwyd bod yr Athro I. Roffe yn dod yn aelod o'r Bwrdd Ymchwil ac eiliwyd hynny.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol fod yr Athro I. Roffe yn dod yn aelod o'r Bwrdd Ymchwil.**

**LLOFNODWYD: …………………………. DYDDIAD: ………………………………..**